# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Iau, 23 Tachwedd 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
L. Evans, Rheolwr Polisi a Chynnwys
T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod
- 9.00 - 9.24 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 HYDREF 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 23 Hydref 2023, gan ei fod yn gywir.**

## 3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Nodwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd wedi dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Abergwili<br>(2 le gwag - 1 enwebiad) | Mrs K Edwards |
| Brynsierfel<br>(1 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 - 2 enwebiad) | Mrs L Beer |
| Porth Tywyn<br>(2 le gwag - 2 enwebiad) | Y Cynghorydd Michael Thomas<br>Ms K Richards |
| Cae’r Felin<br>(2 le gwag - 1 enwebiad) | Mr D Davies |
| Ffederasiwn Cynwyl Elfed/Llanpumsaint<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs L Cockroft |
| Gorslas<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs G Lewis |
| Ffederasiwn Llechyfedach/y Tymbl<br>(3 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 – 3 enwebiad) | Mrs A Price<br>Ms J. Thomas<br>Mrs J Williams |
| Myrddin<br>(1 lle gwag o 23 Ionawr 2024 – 1 enwebiad) | Ms J Lewis |
| Nantgaredig<br>(2 le gwag o 23 Ionawr 2024 – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Mansel Charles |
| Pen-bre<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr J H Jones |
| Pontyberem<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Miss M Ff Thomas |
| Rhys Prichard<br>(1 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 - 1 enwebiad) | Mrs C Pritchard |
| Y Fro<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Miss M Phillips-Rees |

| Ysgol Uwchradd | Penodiadau |
|---|---|
| Bro Dinefwr<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Arwel Davies |
| Coedcae<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs K Bowen |
| Ysgol Emlyn<br>(1 lle gwag o 1 Chwefror 2024 - 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Hazel Evans |

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2022-23**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol ynghylch y Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-23. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y gwaith o ddarparu, datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd yn unol â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Chynnwys y byddai Adroddiad Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2022-23 yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2022-23 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.**

| ________________________ | ________________ |
|---|---|
| **AELOD O'R CABINET** | **DYDDIAD** |